

Ar ddydd Mawrth, 25ain Tachwedd 2008 cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00 pm
PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); D M Hughes; T Davies; T Lewis; D R Morgan; M Evans; D Jones; Mrs E Davies; D Sheppard a'r cler

- 2533** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. Mrs K Walker (oedd yn cynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfod Cyswllt Airtricity yn Nhalybont), a'r Cyng. Mrs G Price.
Roedd y Cyng. Sir, D Suter yn sâl
- 2534** **Materion Personol:** dim
- 2535** **Datgan Diddordeb Personol:** dim
- 2536** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Hydref 2008 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion -
Cofnod 2504 – Materion Prifffyrdd – Llwybr Diogel i'r Ysgol – Penrhyncoch: Mae'r Cyngor wedi ysgrifennu sawl llythyr yn rhoi gwybod am bedwar digwyddiad y gwyddys amdanynt o blant yn rhedeg/seiclo heibio'r bariau rhwystro ger cyffordd y Llwybr Diogel i'r Ysgol a'r Llwybr Cyhoeddus â phriffordd C1016 ger yr 'Illicit Still', Penrhyncoch, ac allan o flaen cerbydau sy'n teithio ar hyd y ffordd. Gwnaed cais i osod bariau igam-ogam yn lle'r bar rhwystro sengl sydd yno ar hyn o bryd. Mae'r Adran Brifffyrdd wedi ateb nad ydynt yn cytuno gyda'r awgrym hwn ac maent wedi gofyn i'r Heddwes Cymunedol i ymweld ag Ysgol Penrhyncoch i drafod diogelwch ar y ffordd gyda'r plant.
PENDERFYNWYD ysgrifennu eto (i) I ddweud nad yw'r pedwar plentyn oedd yn rhan o'r digwyddiadau ar y ffordd yn ddisgyblion yn Ysgol Penrhyncoch (ii) I ofyn am gyfarfod ar y safle (iii) I ofyn i'r adran ail-ystyried y cais am rwystr igam-ogam (fel yr un ger mynedfa gefn Ysgol Penrhyncoch).
Cofnod 2505 - adolygiad o Wasanaeth Sul y Cofio 2008: Roedd yr aelodau o'r farn bod y trefniadau'n foddhaol a mynegwyd diolchiadau i'r Parchedig Livingstone ac aelodau'r Eglwys; yr Heddlu, y Biwglwr, a garej Tŷ Mawr am ganiatáu i draffig yrru trwy'r cwrt blaen.
Cofnod 2509 – Adolygiad o'r Ffiniau Cymunedol yng Ngheredigion: PENDERFYNWYD ymateb bod y ffiniau cymunedol presennol yn foddhaol ym marn y Cyngor a dylid parhau i gael 11 o gynghorwyr yn cynrychioli'r gymuned. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'r gwrthwyneb gan y Cyhoedd mewn ymateb i'r Hysbysiadau a osodwyd o fewn y Gymuned.
Cofnod 2513 - Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd - Cyfarwyddyd i Gynghorwyr: Yn ei adroddiad rhoddodd y Cyng. Mervyn Hughes grynodedd byr o'r pŵerau newydd a esbonnir yn y ddogfen hon mewn perthynas â sbwriel, graffiti, gosod posterï'n anghyfreithlon, a throseddau cŵn. Fe'i disgrifiodd fel cyfeirlyfr da.
PENDERFYNWYD nodi a derbyn hynny.
- 2357** **Pecynnau Gwybodaeth Age Concern – Cadw'n Gynnes:** Bydd y Swyddog Prosiect yn mynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr i drafod y fenter.
- 2358** **Adroddiadau Cyfarfodydd a Fynychwyd gan aelodau'nr cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**
Cae Chwarae Penbontrhydybeddau: Adroddodd y Cyng. Trefor Davies fod yr adroddiad ar y Cae Chwarae'n un boddhaol. Roedd ymdrechion ar y gweill i geisio codi mwy o arian i brynu cyfarpar newydd yn lle'r hen gyfarpar a chafwyd gwybod bod y 'Buffs' lleol wedi enwebu Pwyllgor y Cae Chwarae fel buddiolwyr eu digwyddiadau i godi arian eleni.
Hen Ysgol Trefeurig: Mynychodd y Cyng. Daniel Jones gyfarfod yn Ysgol Trefeurig a drefnwyd gan D C King oedd yn anelu at gael gwell gwasanaeth Band Eang yn y gymuned. Roedd cynrychiolydd o BT yn bresennol ac esboniodd anawsterau ardaloedd tenau eu poblogaeth mewn perthynas â chostau uchel ailosod hen offer BT
- 2359** **Cynllun Llwybrau Ceredigion 2009**
(i) Gwahoddiad i wneud cais i gymryd rhan mewn Cynllun Llwybrau Cymunedol diwygiedig sy'n dechrau yn 2009. PENDERFYNWYD mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn nes ymlaen, ac yn y cyfamser i arddangos hysbysebion yn gwahodd trigolion i awgrymu

llwybrau troed / llwybrau ceffyl sydd angen eu gwella. (ii) Gwahoddiad i roi cais mewn i drasio Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol. PENDERFYNWYD peidio ag ymgeisio ar hyn o bryd ond i lunio rhestr o'r llwybrau y gellid eu cynnwys yn y cynllun hwn yn y dyfodol.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

- 2360 Gwasanaethau Amgylcheddol Ceredigion – tanciau septig yn gorlifo:** Cynhaliwyd profion ar ddau safle lle amheuwyd bod tanciau septig yn gorlifo. Un yng Nghefnllwyd oedd yn negyddol. Y llall ym Mhenbontrhydybeddau lle mae ymdrechion i ddatrys y broblem yn dal ar y gweill. PENDERFYNWYD nodi hynny.
- 2361 Comisiwn Ffiniau Cymru:** Adolygiad o Ganlyniadau Etholiadau Cynghorau Cymuned 2008: PENDERFYNWYD nodi.
- 2362 Rhyddid Gwybodaeth – Mabwysiadu cynllun cyhoeddi gwybodaeth enghreifftiol newydd o 1 Ionawr 2009:** Derbyniwyd manylion o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am y cynllun cyhoeddi gwybodaeth enghreifftiol newydd sy'n rhaid i Gyngorau ei fabwysiadu o 1af Ionawr 2009. Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD cwblhau'r templed enghreifftiol a mabwysiadu'r cynllun. Bydd manylion y cynllun a'r templed wedi'i gwblhau ar gael i'r cyhoedd o 1 Ionawr 2009.
- 2363 Dogfen drafod Plaid Werdd Ceredigion yn anelu at wella cludiant bws:** Cafwyd trafodaeth fanwl ar gynnwys y ddogfen. PENDERFYNWYD ymateb fel a ganlyn:
 (i) Roedd yna gefnogaeth unfrydol i'r cynigion ynghylch cydlynu amserlenni
 (ii) Ni ddylai rheoliadau sy'n gorfodi cwmnïau i dderbyn bob tocyn olygu bod y cwmnïau bysys llai dan anfantais ariannol
 (iii) Mynegwyd cefnogaeth gref i'r cynnig y dylai un corff fod yn gyfrifol am gynhyrchu a lledaenu gwybodaeth ynghylch yr holl wasanaethau
 (iv) Dylid sicrhau bod teithwyr yn ymwybodol o'r amrywiaeth ym mhrisiau cwmnïau bysys ar gyfer bob taith. Dylid arddangos y prisiau'n glir.
- 2364 Grŵp Cyswilt Airtricity - cynllun drafft ar gyfer y cyfarfod cyntaf:** PENDERFYNWYD gadael y drafodaeth hon nes bod y Cyng. K Walker, cynrychiolydd y Cyngor, yn adrodd ar y cyfarfod.
- 2365 Shelter Cymru:** Derbyniwyd copi o becyn Cymunedau Gwledig Shelter. PENDERFYNWYD ei roi i'r Cyng. D Sheppard ei ddarlenn ac adrodd arno yng nghyfarfod mis Ionawr
- 2366 Cynllun Lleihau Risg Tân ac Achub 2009/10:** PENDERFYNWYD ei roi i'r Cyng. D M Hughes ei ddarlenn ac adrodd arno yng nghyfarfod mis Ionawr.
- 2367 Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu:** PENDERFYNWYD ei roi i'r Cyng. R Owen ei ddarlenn ac adrodd arno yng nghyfarfod mis Ionawr.
- 2368 Trefi Taclus Ceredigion:** Manylion menter newydd i wella asedau cymunedol: PENDERFYNWYD gwneud copi ar gyfer grŵp lleol a'u gwahodd i gymryd rhan yn y cynllun.
- 2369 Cynulliad Cenedlaethol Cymru:** Gwahoddiad i fynegi barn ar y cymorth ariannol a ddarperir ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2370 Gwahoddiad i Gyfarfod yn Aberaeron ar 2/12/08 i drafod cynigion i gwtogi ar gostau goleuo'r strydoedd.** PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. R Owen a Mrs K Walker i fynychu.
- 2371 Gwahoddiad i Weithdy'r Comisiwn Ffiniau yng Nghaerfyrddin ar 10fed Rhagfyr:** PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2372 Gwahoddiad i aelodau i fynychu Derbyniad Dinesig yr RAF yn Aberystwyth ar 03/02/09** PENDERFYNWYD enwebu pedwar aelod i fynychu os yn bosib.

MATERION ARIANNOL

- 2373 HSBC - balans Cyfrif Cymunedol ar 13 Tach. 08: £1050. 19**(taflen 290). Mae hynny, ynghyd â balans y cyfrif 'Business M/Manager' o £8,389.20 yn gadael y Cyngor gyda £9,439.39
- 2374 Adleoli lamp llwybr troed:** Y dyfynbris a dderbyniwyd gan SP ar gyfer adleoli'r lamp ger Sgwâr Penrhyncoch yw £710. 50 + TAW + costau colofn, gosodiadau a gosod o dros £1,000. PENDERFYNWYD gohirio'r drafodaeth ar yr eitem hon nes bod cynigion Ceredigion ar gyfer goleuadau cyhoeddus yn hysbys.

2375 Ail-osod map ardal Penrhyncoch: Cafwyd dyfynbris dros dro o £650 i ail-osod y map presennol. PENDERFYNWYD derbyn y dyfynbris hwn os gellir cwblhau'r gwaith o fewn y flwyddyn ariannol bresennol.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

- 2376 Y Lleng Brydeinig** - torch £25 (siec 880)
2377 L Griffiths – Cyfieithu Hydref 2008: £77.13 (siec 881)
2378 Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig – Hurio'r ystafell 16/09/08: £10 (siec 882)
2379 A Hughes – trwsio hysbysfyddau cymunedol: £48.75 (siec 883)
2380 Viking Direct - Deunyddiau swyddfa: £74.18 + TAW £11.13 - Cyfanswm £85.31 (siec 884)
2381 SLCC – Adnewyddu aelodaeth 2009: £72 (siec 885)

Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:

- 2382 A080906AV Garej Tŷ Mawr, Penrhyncoch** - arwyddion - rhoddwyd caniatâd
2383 A080783 Alltadog, Capel Madog - tyrbin gwynt - rhoddwyd caniatâd

Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

- 2384 A080979 Tŷ'r Ysgol, Trefeurig** - gwelliannau ac estyniadau: Roedd gwaith ar yr eiddo hwn wedi hen ddechrau cyn i'r 21 o ddiwrnodau a ganiateir ar gyfer ymgynghoriad ddod i ben.
- 2385 A071015 Tir ger y Swyddfa Bost, Penrhyncoch** -codi annedd (cynlluniau diwygiedig): Dim sylwadau.
- 2386 A030530 - Tir Amwynder, Lôn Helyg, Penrhyncoch:** Derbyniwyd llythyr gan un o drigolion yr ystâd ynghylch perchnogaeth/cyfrifoldeb am y darn hwn o dir. PENDERFYNWYD cydnabod y llythyr ac anfon copi i'r Adran Gynllunio ynghyd â chais am ymateb i llythyr y Cyngor Cymuned ar y pwnc hwn, dyddiedig 01.09.08
- 2387 Cadarnhau'r Cyfarfod nesaf:**
Oni bai bod unrhyw faterion brys yn codi PENDERFYNWYD peidio â chynnal cyfarfod ar 16eg Rhagfyr.
Cynhelir cyfarfod mis Ionawr am 7.00pm ar ddydd Mawrth, 20fed Ionawr 2009 yn Hen Ysgol Trefeurig (yn amodol ar gwblhau gwaith cynnal a chadw a chael tystysgrif asesiad risg)
- 2388 Cytunwyd i gynnwys y materion canlynol ar yr agenda nesaf:**
- Pryder gyrywyr bod llifoleuadau'r cae pêl-droed yn eu dallu
- Tipio anghyfreithlon yng Nghwmsymlog
- Ceisiadau dilynol am finiau graean
- Camfa wedi torri ger y fynedfa i lwybr troed 9/7 oddi ar ffordd Salem
- Cais am waith cynnal a chadw / polion adlewyrchu ar ochr ogleddol y briffordd trwy Penbonrhydybeddau

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.20 pm.

(Mae'r Cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yr aelodau yng Nghyfarfod nesaf y Cyngor)